

## **Arolwg sganio'r gorwel Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 i Gymru - Hysbysiad** **Preifatrwydd Comisiwn y Senedd**

### **Sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio**

Comisiwn y Senedd yw'r rheolydd data ar gyfer y wybodaeth a roddir gennych, a bydd yn sicrhau y caiff ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

### **Ein Manylion Cyswllt**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau diogelu data at y Swyddog Diogelu Data:

[Data.Protection@senedd.cymru](mailto:Data.Protection@senedd.cymru)

0300 200 6565

### **Gwybodaeth – beth, pam, ble, sut?**

#### **Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?**

Rydym yn chwilio am farn ar: y strategaeth gyffredinol ar gyfer mynd i'r afael â'r pandemig yng Nghymru; bylchau mewn data, dealltwriaeth ac ymchwil; pwy sydd fwyaf mewn perygl a sut y gellir eu diogelu; a safbwyntiau ynghylch pa faterion y dylai'r Senedd fod yn craffu arnynt yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.

Rydym hefyd yn casglu lincs i waith ymchwil diweddar ymatebwyr mewn cysylltiad â COVID, a dolenni Twitter.

#### **Pam rydym yn ei chasglu?**

Rydym yn cysylltu â'r bobl hynny ar Gofrestr Arbenigwyr COVID-19 i gasglu safbwyntiau a fydd yn helpu i lywio a chefnogi gwaith craffu'r Senedd ar COVID-19 a'i effaith.

#### **Pwy fydd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth?**

Mae'r data'n cael eu casglu gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd a gall staff eraill Comisiwn y Senedd, Aelodau'r Senedd a Staff Cymorth yr Aelodau eu defnyddio.

Bydd ymatebion yn cael eu rhannu'n fewnol i lunio crynodeb o'r holl ymatebion, a gyhoeddir ar ein gwefan; gall hyn gynnwys enwau a rolau. Gellir defnyddio'r ymatebion hefyd i lywio'r gwaith o lunio papur ymchwil 'materion allweddol', a llunio blaenraglenni gwaith pwyllgorau yn y Chweched Senedd.

#### **Ble bydd y wybodaeth yn cael ei storio?**

Bydd y wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar ein systemau TGCh, sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft. Mae unrhyw ddata a gaiff eu trosglwyddo gan Microsoft y tu allan i'r AEE yn dod o dan gymalau cytundebol lle mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth diogelu data

cymwys. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd Microsoft yn defnyddio'ch gwybodaeth, gallwch ddarllen datganiad preifatrwydd y cwmni [yma](#).

Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu drwy Ffurflen Microsoft.

### **Am ba hyd y cedwir y wybodaeth?**

Bydd ymatebion i'r arolwg yn cael eu cadw drwy gydol y pandemig ac am gyfnod wedyn er mwyn caniatáu i unrhyw ymholiadau neu ffrydiau gwaith parhaus gael eu cwblhau. Bydd y crynodeb cyhoeddedig o'r ymatebion ar gael ar-lein yn barhaol.

### **Sut y byddwn yn cael gwared ar y wybodaeth?**

Mae proses wedi'i sefydlu, fel pan na fydd angen y data mwyach, caiff eu dileu o unrhyw gyfrifon Microsoft 365 a/neu systemau'r Senedd.

### **Ein seiliau cyfreithiol ar gyfer casglu, dal a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**

Mae cyfraith diogelu data yn nodi seiliau cyfreithiol amrywiol sy'n caniatáu i ni gasglu, dal a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. At ddibenion prosesu'r data personol a ddarperir gennych yn yr arolwg hwn, rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol canlynol:

Credwn fod angen casglu a defnyddio eich gwybodaeth i'n helpu i gasglu barn ar y materion allweddol sy'n wynebu Cymru ac i gefnogi swyddogaethau craffu a deddfwriaethol y Senedd. Mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd yn unol ag Erthygl 6(1)(e) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a ddarllenir ynghyd ag adran 8(d) o Ddeddf Diogelu Data 2018.

### **Data personol categori arbennig**

Ni fyddwn yn gofyn unrhyw gwestiynau uniongyrchol i chi sy'n ymwneud â data personol categori arbennig. Os byddwch yn darparu gwybodaeth o'r fath drwy eich ymatebion, byddwn yn prosesu unrhyw ddata categori arbennig perthnasol amdanoch chi ac unrhyw un arall y soniwch amdano yn eich ymateb.

Bydd data categori arbennig yn cael eu prosesu ar y sail bod hynny'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd (fel y'u darperir yn unol ag Erthygl 9(2)(g) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, a ddarllenir ar y cyd â pharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018).

Diffinnir data personol categori arbennig fel rhai sy'n cynnwys data sy'n datgelu cefndir unigolion o ran hil, ethnigrwydd, credoau crefyddol neu athronyddol, cyfeiriadedd rhywiol a data am iechyd.

### **Eich hawliau**

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Mae'r hawliau sy'n gymwys yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arnynt i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Ni fydd yr hawliau hynny'n gymwys ym mhob achos, a bydd y Comisiwn yn cadarnhau a yw hynny'n wir ai peidio pan fyddwch chi'n gwneud cais.

Mae'r hawliau'n cynnwys yr hawl i ofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol eich hun, a elwir weithiau yn 'gais gwrthrych am wybodaeth'.

Hefyd, mae gennych hawl i wneud cais gennym ni:

- bod unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch yn cael ei chywiro (nodwch fod gofyn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau o ran eich gwybodaeth bersonol);
- bod gwybodaeth amdanoch chi yn cael ei dileu (mewn rhai amgylchiadau);
- yr hawl i wrthwynebu
- ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu mewn rhai amgylchiadau; ac
- Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau sydd gennych o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gofyn cwestiwn neu gwyno am y ffordd y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data drwy un o'r dulliau a nodir uchod.

### **Ceisiadau am wybodaeth a wneir i'r Comisiwn**

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych yn llawn neu'n rhannol. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.

### **Sut i gwyno**

Gallwch gwyno i'r Swyddog Diogelu Data os ydych yn anhapus â sut rydym wedi defnyddio'ch data. Gellir gweld y manylion cyswllt uchod.

Yn dilyn cwyn, os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon â'n hymateb, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr ICO).

Cyfeiriad yr ICO yw:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113